# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **7fed o Fawrth 2017** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Mair Rowlands** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Catrin Thomas, Uwch-Reolwr Dysgu Cymunedol** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 679 913 (32913)** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Cynllun Ad-TRAC** |

### 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Cymeradwyo'r Pennaeth Economi i dderbyn cynnig grant o £1,203,437 yn amodol ar ddyfarniad Swyddfa Ariannu Ewrop i weithredu Cynllun Ad-TRAC yng Ngwynedd.

Ymrwymo i gydariannu'r cynllun hyd at £492,095.

### 2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Mae lefel yr ymrwymiad ariannol angen penderfyniad Cabinet.

### 3 CYFLWYNIAD

3.1 Mae Cyngor Gwynedd ar y cyd gyda Awdurdodau LLeol Gogledd Cymru, Grŵp Llandrillo-Menai a Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr wedi ymgeisio am arian o Gronfa Cymdeithasol Ewropeaidd (ESF) ar gyfer darparu Cynllun Ad-TRAC. Arweinir y cynllun yn rhanbarthol gan Grŵp Llandrillo-Menai.

3.2 Mae Ad-TRAC yn bartneriaeth aml asiantaethol er mwyn cefnogi ymgysylltiad pobl ifanc 16-24 oed sydd ddim mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth drwy roi cefnogaeth ddwys iddynt i'w symud yn agosach i addysg, hyfforddiant neu waith.

3.3 Amcanion y rhaglen yw :-

- Lleihau nifer y pobl ifanc 16-24 oed na ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth nac Hyfforddiant.

## 4 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

**4.1** Bydd y Cynllun hwn yn cefnogi'r Cyngor i ddarparu Fframwaith Ymgysylltiad Pobl Ifanc, Llywodraeth Cymru. Mae'r Fframwaith Ymgysylltiad a'r cynllun AD-Trac yn un o'r ymyraethau sy'n rhan o Strategaeth Ataliol y Cynllun Strategol presennol, ac yn un o flaenoriaethau arfaethedig Cynllun Gwynedd 2017-18.

4.2 Atodir Cynllun Busnes a phroffil ariannol ar gyfer gweithredu'r cynllun yn Atodiad 1.

4.3 Bydd y Cynllun yng Ngwynedd yn cefnogi pobl ifanc bregus i gyrraedd eu llawn botensial mewn addysg neu waith drwy ddarparu cefnogaeth bersonol, ddwys ar eu cyfer fel bod ganddynt y sgiliau a'r hyder i fynd nol i addysg, i hyfforddiant newu symud ymlaen i waith. Wrth wneud hyn bydd y cynllun yn lleihau nifer y bobl ifanc 16-24 oed hynny nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na gwaith yn y sir. Mae'r cynllun yn anleu i gyflawni'r canlynol:

| Dangosydd | Targed |
|---|---|
| Nifer y bobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth, na hyfforddiant a gefnogir gan y cynllun | 450 |
| Nifer y bobl ifanc a gefnogir sy'n dechrau swyddi ar ôl gadael y rhaglen | 90 |
| Nifer y bobl ifanc a gefnogir sy'n ennill cymhwyster | 90 |
| Nifer y bobl ifanc a gefnogir sydd mewn addysg neu hyfforddiant ar ôl gadael y rhaglen | 77 |

4.4 Mae'r gyllideb ar gyfer y cynllun yng Ngwynedd yn golygu y byddwn yn denu adnoddau ychwanegol o dros £1.2 miliwn tuag at weithgareddau i gefnogi pobol ifanc fregus yn y sir.

4.5 Bydd Grŵp Llandrillo-Menai, fel ariwenydd y prosiect, yn ad-dalu costau gweithredu'r cynllun i'r Cyngor.

| | £ |
|---|---|
| Cost y Prosiect | £1,695,532.85 |
| Cydariannu (amser staff) | £ 492,095.20 |
| Grant ESF | £1,203,437.65 |

4.6 Mae'r cydariannu ar gyfer y cynllun wedi ei adnabod drwy ymrwymo adnoddau staff yn y Gwasanaeth Ieuenctid (Adran Economi a Chymuned), a'r Gwasanaeth Ôl-Ofal (Adran Plant a Theuluoedd), ynghyd a chyfraniad o'r incwm a ddenir drwy'r prosiect.

4.7 Mae'r Fframwaith Ymgysylltu a'r cynllun Ad-TRAC ar hyn o bryd yn eistedd gyda'r Gwasanaeth Ieuenctid. Caiff y cynllun ei reoli yn sirol gan y Rheolwr Ymgysylltiad Pobl Ifanc sydd hefyd yn arwain ac yn goruchwylio gwaith y Fframwaith Ymgysylltiad 11-24 oed oddi fewn i'r awdurdod. Bydd y rheolwr yn adrodd ar gynnydd y prosiect i'r Grŵp Strategol Ymgysylltiad Pobl Ifanc sydd yn y cyngor.

4.8 Rydym yn y broses o ail-fodelu'r gwasanaeth ieuenctid yn dilyn

penderfyniadau Her Gwynedd. Gall newid yn y gwasanaeth ieuenctid fod yn risg i'n gallu i reoli y Fframwaith a'r cynllun Ad-TRAC o fis Ebrill 2018 ymlaen.

4.9 Bydd y rhaglen yn creu 7 swydd newydd sef rheolwr prosiect, swyddog monitro a 5 gweithiwr ymgysylltiad pobl ifanc. Mae'r swyddi hyn yn ychwanegol i'r 6 swydd a ddefnyddir fel cydariannu i'r cynllun (cyfeirir atynt yn 4.6 uchod). Bydd y tim cyfan gyda rolau penodol ar gyfer gweithio gyda pobl ifanc i ddarparu cefnogaeth ddwys iddynt i'w cefnogi i symud yn agosach i waith, a/neu yn nol i addysg a dysgu. Caiff costau diswyddo ar gyfer cyfnod y cynllun ei ad-dalu gan y grant, ond byddai unrhyw gost diswyddo sydd ynghlwm a hyd gwasanaeth y tu allan i gyfnod y cynllun yn disgyn ar yr awdurdod.

4.10 Bydd gofyn i'r Cyngor ymrwymo drwy Gytundeb cyfreithiol i ofynion Gronfa Cymdeithasol Ewropeaidd (ESF), ac felly bydd angen sicrhau y gall y Cyngor gyd-ymffurfio a'r gofynion hyn. Mae'r risgiau sydd ynghlwm a derbyn arian grant, megis cyflawni gofynion monitro, archwilio, rheolaeth ariannol, rheolaeth perfformiad wedi eu hadnabod yn yr a Asesiad Risg llawn sydd wedi ei atodi yn Atodiad 2.

## 6 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Rydym yn disgwyl penderfyniad gan WEFO erbyn mis Mawrth 2017. Bydd y cynllun yn weithredol am 3 blynedd o Ebrill 2017 – Mawrth 2020 ac mewn cyfnod ymbaratoi am y 3 mis cyntaf ar gyfer sefydlu'r cynllun a recriwtio staff, ac yn cychwyn cefnogi unigolion o ddiwedd Mehefin 2017 ymlaen.

## 7 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

### Sylwadau'r Prif Swyddogion

### Y Prif Weithredwr

"Mae'r cynllun yn amlwg yn un buddiol gan ei fod yn gweithio gyda'r garfan bwysig yna o bobl ifanc 16-24 oed na ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth nac Hyfforddiant. Mae adnoddau cyd-ariannu'r Cyngor (sydd yn amser staff a swyddi) wedi ei adnabod a'i gadarnhau. Felly, rwy'n cymeradwyo'r bwriad o dderbyn y cynnig grant."

### Y Prif Swyddog Cyllid

"Cadarnhaf nid yw'r cynllun buddiol yma'n ddibynnol ar gyfraniad ariannol ychwanegol gan y Cyngor, gan ddefnyddir swyddi cyfredol, ayb, fel cydariannu. Rwy'n cefnogi'r bwriad i dderbyn y cynnig grant."

### Y Swyddog Monitro

"Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb"